Cynlluniau i'w harddangos



Bydd noson agored yn cael ei chynnal i arddangos cynlluniau ailddatblygu Ysgol Dewi Sant mewn paratoad ar gyfer ei hagoriad fel un o safleoedd yr ysgol 3-16 newydd ar gyfer yr ardal.

Bydd y noson yn cael ei chynnal nos Fercher 18 Hydref, rhwng 6-7yh yn Neuadd y Ddinas, Tyddewi.

Bydd disgyblion, rhieni, a thrigolion yn cael cyfle i drafod y cynlluniau gyda swyddogion y Cyngor Sir, yn ogystal â chynrychiolwyr y contractwyr, W.B Griffiths a'i Fab Cyf.

Mae'r cynlluniau eisoes i'w gweld yn Neuadd y Ddinas cyn y noson agored.

Mae'r ysgol wedi ei hail-leoli dros dro yn Ysgol Tasker Milward, Hwlffordd, tra bydd y gwaith yn cael ei gyflawni.

Disgwylir i'r gwaith fod wedi'i orffen erbyn diwedd haf 2018, ac i'r adeilad gael ei ail-agor ym Medi.

Pennawd
Argraff o sut fydd Ysgol Dewi Sant yn edrych ar ôl ailddatblygu.